**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**GORCHYMYN CYRFF CYHOEDDUS (DIDDYMU'R PWYLLGOR CYNGHORI AR BRISIO GWELLIANNAU A MATERION HAWLIAU TENANTIAID) 2014**

1. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn cael ei osod o dan Reol Sefydlog 30A.2. Mae Rheol Sefydlog 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac y gellir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os bydd Offeryn Statudol y DU yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas â Chymru, sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Gosodwyd Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor Cynghori ar Brisio Gwelliannau a Materion Hawliau Tenantiaid) 2014 **("y Gorchymyn")** gerbron y Senedd ar 6 Chwefror 2014 a gerbron y Cynulliad ar 7 Chwefror 2014.

3. Yn unol ag adran 9(6) Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011, rhaid i'r Gorchymyn gael cydsyniad y Cynulliad. Mae Adran 9(6) Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad y Cynulliad pan fo Gorchymyn a wnaed dan adrannau 1 i 5 o'r Ddeddf honno yn gwneud darpariaethau a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad pe bai'n rhan o Ddeddf Cynulliad.

**Crynodeb o'r Gorchymyn a'i amcanion**

4. Amcan y Gorchymyn yw diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol. Dyna'r enw a ddefnyddir ar gyfer y pwyllgor cynghori ar brisio gwelliannau a materion hawliau tenantiaid, a sefydlwyd gan adran 92 Deddf Daliadau Amaethyddol1986. Mae'r Pwyllgor wedi'i gynnwys dan Atodlen 1 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 sy'n darparu ar gyfer ei ddiddymu.

5. Sefydlwyd y Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol er mwyn darparu cyngor ynghylch iawndal ar ddiwedd tenantiaeth amaethyddol yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y dull ar gyfer cyfrifo prisiad daliadau tenantiaeth. Ni chafwyd unrhyw benodiadau i'r Pwyllgor ers dros ugain mlynedd, ac mae wedi bod yn segur i bob pwrpas ers 1991. Mae Gweinidogion Cymru yn cael cyngor ar faterion tenantiaeth gan y Tenancy Reform Industry Group (TRIG), sy'n gorff anstatudol. Mae'r Pwyllgor yn cael ei ddiddymu fel corff cyhoeddus anadrannol statudol o ganlyniad i adolygiad Llywodraeth y DU i strwythur cyrff cyhoeddus yn 2010.

6. Mae Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor Cynghori ar Brisio Gwelliannau a Materion Hawliau Tenantiaid) 2014 yn diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol. Mae'n diddymu adran 92 Deddf

Daliadau Amaethyddol 1986 a sefydlodd y pwyllgor, a hefyd yn gwneud mân ddiddymiadau canlyniadol eraill.

7. Mae'r gorchymyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

## Darpariaethau i'w gwneud gan y Gorchymyn y gofynnir am gydsyniad yn eu cylch

8. Mae’r Gorchymyn a osodwyd gan Senedd y DU yn diwygio Deddfwriaeth Sylfaenol, sef Deddf Daliadau Amaethyddol 1986. Mae Erthygl 2 y Gorchymyn yn diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol, a sefydlwyd gan adran 92 Deddf Daliadau Amaethyddol 1986. Mae Erthygl 3 yn diddymu adran 92 Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 a hefyd yn diddymu'r cyfeiriad at y cofnod yn atodlen 1 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn ymwneud a'r Pwyllgor. Prif destun Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 yw amaethyddiaeth. Ar ben hynny, mae darpariaethau Gorchymyn 2014 yn amlwg yn "ymwneud ag" Amaethyddiaeth gan eu bod yn diddymu pwyllgor oedd yn cynghori ar faterion tenantiaeth amaethyddol ac a sefydlwyd yn sgil Deddf, lle mai amaethyddiaeth oedd y prif destun.

9. Mae Adran 107(4) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i'r Cynulliad "wneud deddfau...a elwir yn Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru." Mae Adran 108(4) Deddf Llywodraeth Cymru yn dweud bod Deddf Cynulliad o fewn cymhwysedd deddfwriaethol os yw'n "ymwneud ag" un neu fwy o'r pynciau a restrwyd dan unrhyw un o'r penawdau yn Rhan 1 Atodlen 7 (yn ddibynnol ar eithriadau a chyfyngiadau). "Amaethyddiaeth" yw un o'r pynciau hynny, ac o ganlyniad byddai modd i'r Cynulliad basio deddfwriaeth yn cynnwys y darpariaethau angenrheidiol i ddiddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol a diddymu'r rhan angenrheidiol o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 o'i wirfodd, mewn perthynas â Chymru, gan fod ganddo'r cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn.

10. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau sy'n cael eu disgrifio ym mharagraff 8 uchod yn syrthio dan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o ran y ffaith eu bod yn ymwneud ag Amaethyddiaeth dan baragraff 1 Rhan 1, Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Pam ei bod yn briodol i'r Gorchymyn wneud y ddarpariaeth hon

11. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol defnyddio un cyfrwng deddfwriaethol i ddiddymu’r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol. Gan fod y Pwyllgor yn gorff ar gyfer Cymru a Lloegr, y ffordd fwyaf effeithiol o'i ddiddymu yn y ddwy wlad ar yr unwaith yw un gorchymyn unigol. Er bod gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad y pwerau angenrheidiol i'w ddiddymu yng Nghymru, ymddengys mai defnyddio’r Gorchymyn i ddiddymu’r Pwyllgor yng Nghymru a Lloegr yw'r ffordd fwyaf ymarferol a chymesur o symud ymlaen.

12. Ni fydd diddymu’r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol yn cael unrhyw effaith ymarferol ar y broses o gynghori ynghylch iawndal ar ddiwedd tenantiaeth amaethyddol a chyfrifo prisiadau daliadau tenantiaeth yng Nghymru. Mae’r Pwyllgor yn cael ei ystyried yn gorff cyhoeddus darfodedig gan nad yw wedi cyfarfod, nac wedi penodi unrhyw aelod newydd, ers dros 20 mlynedd. Mewn gwirionedd, mae swyddogaethau'r Pwyllgor yng Nghymru bellach yn cael eu cyflawni gan TRIG, sefydliad anstatudol.

13. Sefydlwyd TRIG yn wreiddiol er mwyn gwneud argymhellion i'r Gweinidogion ynghylch diwygio tenantiaeth, ac arweiniodd y gwaith at newidiadau mewn deddfwriaeth tenantiaeth a ddaeth i rym yn 2006. Fodd bynnag, mae TRIG yn parhau i gyfarfod o bryd i'w gilydd i roi cyngor ar faterion yn ymwneud a thenantiaeth. Mae TRIG yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant a chyrff proffesiynol, fel Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant a Chymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad.

14. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yng Nghymru a Lloegr rhwng 16 Medi a 7 Hydref 2013. Daeth cyfanswm o 5 ymateb i law, gyda phob un o'r rhai a ymatebodd yn cytuno gyda'r cynnig i ddiddymu'r Pwyllgor.

**Y goblygiadau ariannol**

15. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn codi o ddiddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol. Nid oes gan y Pwyllgor staff nac aelodau, ac nid yw'r diddymu'n fwy na cham gweinyddol i leihau nifer y cyrff cyhoeddus diangen sy'n bodoli ar hyn o bryd.

**Alun Davies AC**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Chwefror 2014**